# DOFEDNOD

CYNHYRCHU WYAU MAES

**TAFLEN FFEITHIAU**
**CALU**
Cyf: 040804
Awst 2010

## RHAGARWEINIAD

Bu cynnydd sylweddol yng ngwerthiant wyau maes yn y blynyddoedd diweddar. Gallai hyd at 50% o'r wyau a gynhyrchir yn y DU fod yn wyau maes erbyn 2011, ac mae gwaharddiad yr UE ar gewyll dodwy confensiynol, fydd yn dod i rym yn 2012, yn debygol o achosi cynnydd mwy eto. Ar hyn o bryd, ceir tua 14 miliwn o ieir sy'n dodwy wyau maes yn y DU ac mae'r penderfyniadau a wnaed gan gynlluniau sicrwydd gwirfoddol sy'n weithredol yn y sector wedi rhoi cyfle i gynhyrchwyr ddatblygu ymhellach. Mae'r term "wyau maes" fel rheol yn golygu bod yr wyau'n organig hefyd. Fodd bynnag, roedd gwerthiant wyau organig ar ei uchaf tua dwy flynedd yn ôl pan oedd 5% o'r wyau a werthwyd yn rhai organig, ond ers hynny mae'r canran wedi llithro lawr i 3%.

## DECHRAU ARNI

Y peth cyntaf y dylech ei wneud, cyn ystyried maint y sied neu ba offer sydd ei angen arnoch, yw dod o hyd i farchnad i'ch wyau. Ceir pryder ar hyn o bryd bod y farchnad wyau maes ar fin cael ei gorgyflenwi. Cysylltwch â nifer o'r cwmnïau mawr sy'n pacio wyau i ofyn a wnânt brynu eich wyau ac am ba bris.

Dewis arall yw gweithio gyda chwmnïau sy'n cynnig cytundeb tebyg i fasnachfraint. Mewn sefyllfa felly, caiff y cynhyrchydd gytundeb, fydd efallai'n cynnwys yr adeilad, yr adar a'r bwyd, a gwarant y bydd y cwmni'n prynu'r holl wyau a gynhyrchir.

Mae nifer fechan o ffermwyr yn dewis gwerthu eu hwyau'n uniongyrchol i fân-werthwyr neu drwy siopau fferm a marchnadoedd. Gall y prisiau fod yn well ond mae'n farchnad anodd i ymsefydlu ynddo ac mae angen gwneud ymchwil gofalus cyn mentro. Ceir rheolau a rheoliadau ychwanegol sydd ynghlwm â'r math hwn o werthu.

## SAFLE

I greu busnes wyau maes llwyddiannus, yn ddelfrydol, bydd arnoch angen safle gweddol wastad sydd wedi ei ddraenio'n dda gyda digon o le i'r ieir grwydro ac, os oes modd, haen dda o laswellt sydd wedi ymsefydlu. Gallai defnyddio tir trwm wedi ei ddraenio'n wael olygu bod yr ieir yn corddi'r tir gan ddifetha'r maes.

Yn ddelfrydol, dylai bod loriau yn gallu mynd at yr adeilad i ddanfon bwyd, casglu wyau a gwneud y gwaith adeiladu cychwynnol. Dylai bod cyflenwad dŵr a thrydan ar gael i'r cytiau, gyda digon o le i storio dŵr a chyflenwad trydan wrth gefn rhag ofn i bibellau rewi neu rhag ofn toriadau yn y cyflenwad trydan. Mae ffynonellau ynni cynaliadwy megis ynni'r gwynt ac ynni'r haul yn dod yn boblogaidd i gytiau bach symudol.

Cyn prynu cwt ieir dylech siarad â chymaint o gyflenwyr cytiau a chyfarpar â phosibl a siarad â chynhyrchwyr wyau i gael cyngor ar y cytiau sydd fwyaf addas i'r fferm. Dylai bod cyflenwr yn gallu trefnu i'w gwsmeriaid ymweld â chynhyrchwyr.

Yn draddodiadol, mae rhan fwyaf y wyau a gynhyrchir yn y DU wedi eu cynhyrchu mewn cytiau "haen sengl". Yn y systemau hynny, ceir slatiau ar ddau draean y llawr a gwasarn ar

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

calu
Centre for Alternative Land Use
Canolfan Defnydd Tir Amgen

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

y traean sy'n weddill (fel rheol, naddion pren gwyn neu wellt mân). Ceir un haen o borthwyr, dyfrwyr a blychau nythu ar ben y rhan gyda'r slatiau. Caiff y gwrtaith ei waredu rhwng pob haid o ieir. Yn ddiweddar, mae nifer cynyddol o gynhyrchwyr wyau maes wedi bod yn gosod systemau "aml-haen" lle mae'r porthi, yr yfed a'r dodwy'n digwydd ar nifer o lefelau gwahanol. Un o fanteision system aml-haen yw y gellir cadw mwy o ieir mewn cwt o'r un maint. Yn y system hon, caiff y gwrtaith ei gasglu ar felt a'i waredu pob wythnos. Dylech ystyried lle y gallwch storio'r gwrtaith a sut i'w ddefnyddio ar ôl ei symud o'r cwt.

Mae'n rhaid gallu glanhau'r cytiau a'u diheintio'n drylwyr rhwng pob haid. Mae'n rhaid cadw'r tir o amgylch yr adeilad yn glir o sbwriel, annibendod a phorthiant i sicrhau na chaiff cnofilod a phryfaid eu hudo yno. Mae'n rhaid edrych ar y blychau abwyd yn rheolaidd er mwyn cadw llygad ar y cnofilod a lleihau eu nifer. Dylid edrych ar y gwasarn pob wythnos i chwilio am larfae pryfaid, gan fod niferoedd pryfaid yn gallu cynyddu'n sylweddol yn ystod tywydd cynnes.

Mae cytiau haen sengl i ieir maes (yn cynnwys cyfarpar megis slatiau, blychau nythu, casglwr wyau awtomatig, etc.) yn costio tua £25 fesul iâr, ac mae cytiau symudol a chyfarpar yn costio tua £30 fesul iâr. Mae mwyafrif yr heidiau newydd yn cynnwys tua 10,000 i 16,000 o ieir fesul fferm ar gyfartaledd, felly mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i sefydlu uned gynhyrchu wyau maes. Gall y gofynion o ran llafur amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar faint y cytiau ac a ydynt yn sefydlog neu'n symudol. Er enghraifft, mae angen un gweithiwr llawn amser, saith niwrnod yr wythnos, i ofalu am 10,000 o ieir mewn cwt sefydlog. I gael y canlyniadau gorau, dylai'r gweithwyr fyw mor agos at yr uned â phosibl er mwyn gallu goruchwylio'r ieir yn barhaus.

Mae'n debygol y bydd angen caniatâd cynllunio i godi cwt ieir parhaol, ac i osod llawer o rhai symudol, er bod dehongliad gofynion cynllunio yn amrywio ymysg cynghorau. Mae'n hanfodol, felly, siarad â'r cynllunwyr lleol ar y dechrau i gael gwybod pa ganiatâd fydd ei angen arnoch. Gall gymryd rhai wythnosau (o leiaf) rhwng cyflwyno'r cynllun i'r awdurdod cynllunio lleol a chael caniatâd cynllunio.

## RHEOLI'R HAID

Dylid archebu cywennod rhwng 6 mis a blwyddyn cyn y dyddiad dechrau cynhyrchu arfaethedig.

Dylai'r cywennod ddod i'r fferm pan fyddent rhwng 16 a 17 wythnos oed ac ar fin bod yn barod i ddodwy, wedi cael eu brechiadau i gyd ac wedi eu pwyso wrth iddynt gyrraedd i sicrhau eu bod yn cael eu bwydo'n gywir cyn iddynt ddechrau dodwy. Dylid parhau gyda'r un systemau goleuo yn y fferm ddodwy a ddefnyddir yn y fferm fagu i sicrhau bod yr ieir yn ymgartrefu'n rhwydd yn y lleoliad newydd.

Mae cywennod sydd ar fin bod yn barod i ddodwy yn costio oddeutu £3.35 y pen pan maent yn 16 wythnos oed. Mae ieir yn dechrau dodwy wyau pan maent tua 22 wythnos oed ond gallant fod yn 35-40 wythnos oed cyn y gwnawn ddechrau gwneud elw i chi. Fel rheol, caiff yr haid ei gwaredu pan fydd yr ieir rhwng 72 a 74 wythnos oed gan na fyddent yn cynhyrchu digon o wyau erbyn hynny. Gall nifer yr wyau y mae pob iâr yn ei gynhyrchu amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y system a ddefnyddir a brîd yr ieir, ond gellir cael rhwng 285 a 305 o wyau fesul adar gyda'r rhan fwyaf o systemau.

Er yr ymdrechir i'r eithaf i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys.

Mae talu sylw i fanylion a hwsmonaeth dda yn allweddol i lwyddiant yr ieir. Dylai cynhyrchwyr ystyried pa gefnogaeth a ddarperir gan eu cwmni pacio, eu cyflenwr bwyd, eu milfeddyg etc. i'w cynorthwyo gydag wythnosau cyntaf y fenter newydd. Dylid pwyso'r ieir ar hyd eu hoes, a pharatoi'r porthiant yn unol â chyngor y cyflenwr. Bydd monitro'r ieir yn ofalus pob diwrnod yn amlygu unrhyw beryglon o ran heintiau a dylai cynhyrchwyr weithio'n agos gyda'u milfeddyg i sicrhau'r iechyd gorau posibl i'w ieir.

## RHEOLAU A RHEOLIADAU

Mae'n rhaid i bob cynhyrchydd wyau maes gofrestru gydag Arolygiaeth Marchnata Wyau Iechyd Anifeiliaid. Mae'r arolygiaeth yn gwirio maint yr haid, y tir sydd ar gael, dwysedd stocio mewnol a'r cofnodion cynhyrchu a'r cofnodion gwerthiant. Mae'r rhain i gyd yn ofynnol dan Reoliadau Marchnata Wyau'r UE.

Dan Reoliadau'r UE, y dwysedd stocio mewnol mwyaf a ganiateir ar gyfer unedau newydd yw 9 iâr fesul $m^2$. Y dwysedd stocio allanol cyfreithiol mwyaf yw 2,500 iâr fesul hectar.

Mae'n rhaid i gynhyrchwyr hefyd gynnal profion rheolaidd ar eu hieir er dibenion rheoli salmonela. Mae'n **rhaid** i gynhyrchwyr sydd â mwy na 50 o adar gofrestru ar Gofrestr Dofednod Prydain Fawr Defra. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl reolau a rheoliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu wyau maes.

## CYNLLUNIAU GWIRFODDOL

Bydd y rhan fwyaf o gwmnïau pacio wyau yn y DU yn gofyn bod yr ieir yn cydymffurfio â gofynion cynlluniau sicrhau'r *BEIC Lion Code* ac *RSPCA Freedom Food*. Y dwysedd stocio allanol mwyaf a ganiateir gan y ddau gynllun yw 2,000 iâr fesul hectar. Mae'n rhaid i'r maes fod wedi ei orchuddio â llystyfiant yn bennaf, ac mae'n rhaid i gynhyrchwyr gyfoethogi'r maes, trwy blannu coed er enghraifft, er mwyn annog yr ieir i grwydro gan fod hyn yn lleihau'r posibilrwydd o ieir yn gwneud niwed i'w gilydd trwy bigo plu ei gilydd.

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Llywodraeth Cynulliad Cymru (grant prosesu a marchnata i brojectau sy'n adnabod, yn gwasanaethu ac yn ymelwa ar farchnadoedd newydd a marchnadoedd cyfredol) www.wales.gov.uk

ADAS (cyngor ymarferol ar bob agwedd ar sefydlu uned dofednod maes, yn cynnwys cael caniatâd cynllunio) www.adas.co.uk

*British Free Range Egg Producers Association* (cymdeithas cynhyrchwyr wyau maes a chyhoeddwr y cylchgrawn misol "Ranger") www.bfrepa.co.uk

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (yn cynrychioli buddiannau pob ffermwr a thyfwr)

www.nfuonline.com

*British Egg Industry Council* (*Lion Code of Practice* – mae mwyafrif y cwmnïau pacio mawr yn aelodau o'r cynllun) www.britisheggindustrycouncil.com

*Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals (Freedom Food welfare scheme* – mae mwyafrif y cynhyrchwyr wyau wedi eu cynnwys dan y cynllun*)* www.rspca.org.uk

Iechyd Anifeiliaid (Arolygiaeth Marchnata Wyau) www.defra.gov.uk/animalhealth/about-us/eggs.htm

Defra (cofrestr Dofednod) www.defra.gov.uk

Er yr ymdrechir i'r eithaf i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys.